

Tasg 3

Dysgu Cymraeg

1. Pam mae pobl yn dysgu Cymraeg fel arfer?

Trafodwch hyn mewn grŵp ac ysgrifennwch eich syniadau chi ar ddarn o bapur.

Os ydych chi eisiau help, edrychwch ar **Ciwb**, Rhifyn 13, eto.

Dyma rai geiriau i'ch helpu chi.

cael	(to) have	gwaith	work
cymdeithasu	(to) socialise	swydd	job
mwynhau	(to) enjoy	rhaglenni	programmes
gweithio	(to) work	llyfrau	books
gweithio ym maes ...	(to) work in the field of ...	diwylliant	culture
gweithio gyda / efo ...	(to) work with ...	theatr	theatre
siarad Cymraeg gyda / efo ...	(to) speak Welsh with ...	teledu	television
ennill	(to) earn	gwneud yn dda	(to) do well

2. Mae gallu siarad Cymraeg yn bwysig iawn mewn rhai swyddi.

Edrychwch ar yr hysbysebion ar y dudalen nesaf.

Pam mae siarad Cymraeg yn bwysig yn y swyddi yma?

Trafodwch hyn mewn grŵp ac ysgrifennwch eich syniadau chi ar ddarn o bapur.

3. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

GWESTY'R TRAETH, ABERYSTWYTH

Yn eisiau

RHEOLWR

Y swydd:

- Rheoli'r staff
- Croesawu pobl
- Siarad â'r cwsmeriaid

YSGOL GYNRADD BANC-Y-FFOS

Yn eisiau

ATHRO / ATHRAWES BLWYDDYN 5

Rhaid dysgu Cymraeg.

GWALLT GWYCH

Yn eisiau

Triniwr gwallt

Mae llawer o'n cwsmeriaid ni'n siarad Cymraeg, felly, rhaid siarad Cymraeg yn y gwaith.

YSBYTY ABERTAWE

Yn eisiau

DJ ar radio'r ysbyty

Y swydd:

- Siarad â'r cleifion
- Cyflwyno'r rhaglen
- Chwarae cerddoriaeth

LLYFRGELL DINBYCH

Yn eisiau

LLYFRGELLYDD

i weithio 37 awr yr wythnos

Y swydd:

- Gweithio wrth y ddesg
- Darllen storïau (Cymraeg a Saesneg) i grwpiau o blant
- Ateb y ffôn yn ddwyieithog
- Chwilio am wybodaeth

CANOLFAN HAMDDEN Y FRO

Yn eisiau

DERBYNNYDD

Y swydd:

- Siarad â'r cwsmeriaid
- Ateb y ffôn yn ddwyieithog
- Cofrestru pobl mewn dosbarthiadau
- Gwneud posteri dwyieithog

Geirfa

rheolwr	manager	dwyieithog	bilingual
rheoli	(to) manage	llyfrgellydd	librarian
croesawu	(to) welcome	triniwr	stylist
cleifion	patients	derbynnnydd	receptionist
cyflwyno	(to) present	cofrestru	(to) register
cynradd	primary		

4. Rydych chi'n cael cyfweiliad am swydd Derbynnnydd yn y ganolfan hamdden.

a. Rhaid i chi siarad amdanoch chi'ch hun yn Gymraeg.

Paratowch beth rydych chi'n mynd i ddweud – gwnewch nodiadau.

b. **Cyfweld – gwaith grŵp**

Mae'r cyfweiliad yn dechrau.

Siaradwch amdanoch chi'ch hun.

Bydd y grŵp yn gofyn cwestiynau i chi hefyd. Atebwch y cwestiynau.

